## ATODIAD B

# CRYNODEB APELIADAU
# 30 Medi 2018 – 28 Chwefror 2019

---

# APELIADAU A WRTHODWYD

---

1. **CAIS RHIF 16/2018/0107**

CYFEIRIAD Y SAFLE: 3 Bythynnod Bathafarn Llanrhydd, Rhuthun

CYNNIG: Cadw tair ffenest ar lefel y llawr cyntaf

SAIL GWRTHOD: mae ffenestri UPVC yn ddigydymdeimlad ac yn niweidio cymeriad yr Adeilad Rhestredig ymhellach.

MATH O APÊL: Sylwadau ysgrifenedig

COSTAU A DDYFARNWYD YN ERBYN Y CYNGOR: Amh

MATERION I'W NODI
Ystyriodd yr Arolygydd taw'r prif fater oedd a fyddai cadw'r tair ffenest yn cadw cymeriad a diddordeb arbennig yr adeilad rhestredig Gradd II.

Casgliadau'r Arolygydd:
Nid yw'r ffenestri newydd yn cadw cymeriad a diddordeb arbennig yr adeilad rhestredig Gradd II hwn.

------------------------------------------------------------------------------------------

2. **CAIS RHIF 46/2017/1128**

CYFEIRIAD Y SAFLE: Tir y tu ôl i Luke Street, Llanelwy

CYNNIG: Codi annedd

SAIL GWRTHOD: Datblygiad cyfyng, gor-ddatblygu un llain mewn ardal lle mae problemau parcio.

MATH O APÊL: Sylwadau ysgrifenedig

COSTAU A DDYFARNWYD YN ERBYN Y CYNGOR: Amh

MATERION I'W NODI
Ystyriodd yr Arolygydd taw'r prif faterion oedd effaith y datblygiad arfaethedig ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal; yr effaith ar amodau byw trigolion yr eiddo preswyl cyfagos; a fyddai'r datblygiad yn darparu amodau byw derbyniol i drigolion yr eiddo yn y dyfodol; a'r effaith ar ddiogelwch cerddwyr a'r briffordd.

Casgliadau'r Arolygydd:

Daeth yr Arolygydd i'r casgliad y byddai'r datblygiad yn achosi niwed materol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal. Ni fyddai 'chwaith yn darparu amodau byw derbyniol i drigolion yr annedd arfaethedig, oherwydd diffyg preifatrwydd, a byddai'n fygythiad i ddiogelwch cerddwyr a'r briffordd.

---

APÊL GORFODI

**3. CYFEIRNOD ACHOS RHIF ENF2018/00019**

CYFEIRIAD Y SAFLE: Cottage Cream 'n' Candy, 7 Heol Y Castell, Llangollen.

SAIL YR HYSBYSIAD GORFODAETH AR GYFER ADEILAD RHESTREDIG: Tynnu arwyddion i lawr, baner blastig, cerfluniau ac ailosod waliau (Adeilad Rhestredig Gradd II).

MATH O APÊL: Sylwadau ysgrifenedig

COSTAU A DDYFARNWYD YN ERBYN Y CYNGOR: Amh

MATERION I'W NODI
Penderfynodd yr Arolygydd bod yr apêl yn cael ei wrthod o safbwynt y seiliau yr oedd wedi ei gyflwyno arnynt:
Sail (b) – mae'r materion yr honnwyd a greodd dorr-cyfraith wedi digwydd
Sail (c) – mae'r materion yn golygu bod gwaith a wnaed i adeilad rhestredig heb ei awdurdodi
Sail (e) – mae'r gwaith ag ymddangosiad anghyson nad ydyw'n cadw cymeriad a diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig yr adeilad rhestredig, ac felly gwrthodir caniatâd adeilad rhestredig.
Sail (g) – byddai gofynion yr Hysbysiad at bwrpas adfer cymeriad ac ymddangosiad yr eiddo; mae'r gofynion felly yn rhesymol a chymesur.

---

**4. CAIS RHIF 43/2018/0403 (Cais Gorchymyn Diogelu Coed)**

CYFEIRIAD Y SAFLE: 1a The Paddock, Prestatyn

CYNNIG: Torri Sycamorwydden i lawr

SAIL GWRTHOD: Mae gan y goeden werth amwynder sylweddol, does dim digon o dystiolaeth i ddangos ei bod yn angenrheidiol ei thorri

MATH O APÊL: Sylwadau ysgrifenedig

COSTAU A DDYFARNWYD YN ERBYN Y CYNGOR: Amh

MATERION I'W NODI
Ystyriodd yr Arolygydd taw'r prif faterion yw gwerth amwynder y goeden ac effaith debygol ei thorri ar amwynder yr ardal, ac o ystyried yr uchod, a ellid cyfiawnhau'r cais o safbwynt y rhesymau a roddwyd yn ei gefnogi.

Casgliadau'r Arolygydd:
Daeth yr Arolygydd i'r casgliad bod gwerth yr amwynder yn golygu y byddai torri'r goeden yn niweidio amwynder yr ardal, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael fel y caiff ei gyflwyno does dim digon o sail i gyfiawnhau torri'r goeden hon a warchodir. Mae'r goeden wedi ei gwarchod er budd a mwynhad y cyhoedd a'r gymuned yn gyffredinol. Nid yw budd unigol yr apelydd a chefnogaeth y deisebydd i dorri'r goeden yn drech na budd y cyhoedd yn ehangach ar gyfer gwarchod y goeden ymhellach.

---